SESIWN DDAEARYDDIAETH: CYDRADD NEU ANGHYDRADD?

Ystod oed: 9–14 oed

Amlinelliad

Bydd y dysgwyr yn chwarae gêm *Globingo* er mwyn adnabod eu cysylltiadau byd-eang ac edrych arnynt. Byddant yn ystyried rhai gwahanol ffyrdd o fesur datblygiad. Yna bydd y dysgwyr yn defnyddio gêm *Trympiau Olympaidd* i gymharu peth data sy'n ymwneud ag agweddau amrywiol ar ddatblygiad a chyfansymiau'r athletwyr Olympaidd a'r medalau ar gyfer gwahanol wledydd ac yn trafod rhesymau posibl dros unrhyw anghydraddoldebau rhwng gwledydd. Yn olaf bydd y dysgwyr yn lliwio mapiau'r byd i ddangos rhai o'r gwahaniaethau rhwng gwledydd.

Amcanion Dysgu

- Adnabod rhai ffyrdd y mae pobl ifanc yn y DU wedi'u cysylltu â gwledydd ac â phobl eraill yn y byd.
- Datblygu sgiliau daearyddol wrth ddefnyddio mapiau a dadansoddi a dehongli gwahanol ffynonellau data.
- Nodi rhai anghydraddoldebau sydd rhwng gwahanol wledydd ac o'u mewn.

Deilliannau dysgu

- Bydd y dysgwyr yn edrych ar y cysylltiadau sydd ganddyn nhw a'u cyfoedion â gwledydd ac â phobl eraill yn y byd.
- Bydd y dysgwyr yn chwarae gêm *Trympiau Olympaidd* i nodi a thrafod enghreifftiau o anghydraddoldebau rhwng gwledydd ac o'u mewn.
- Bydd y dysgwyr yn defnyddio graddliwio i gynrychioli rhai o'r anghydraddoldebau hyn ar fap o'r byd.

Cwestiynau allweddol

- Sut rydyn ni wedi cael ein cysylltu â gwledydd a phobl eraill yn y byd?
- Pa enghreifftiau o anghydraddoldeb rhwng gwledydd a welsoch chi?
- Beth allai fod yn rhesymau dros yr anghydraddoldebau hyn, yn eich barn chi?
- Ydych chi'n meddwl bod yr anghydraddoldebau hyn yn deg? Pam rydych chi'n meddwl hyn?

Adnoddau

- *Chwarae Teg?* Sioe sleidiau Daearyddiaeth: sleidiau 1–21
- Darnau mawr o bapur (un ar gyfer pob grŵp o dri dysgwr)
- Setiau o bensiliau lliw gyda dau i bedwar arlliw gwahanol o rai lliwiau
- Taflenni adnoddau
  1. Cardiau Trympiau Olympaidd
  2. Incwm cyfartalog y person
  3. Cyfanswm y medalau Olympaidd
  4. Data'r Trympiau Olympaidd
- Taflenni gweithgareddau:
  1. Globingo
  2. Mapio incwm cyfartalog y person
  3. Mapio cyfanswm y medalau Olympaidd
  4. Mapio'r anghydraddoldeb rhwng gwledydd

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

Cysylltiadau â'r cwricwlwm
Cymru **Daearyddiaeth CA2** **Lleoli lleoedd, amgylcheddau a phatrymau** • Canfod a lleoli lleoedd ac amgylcheddau trwy ddefnyddio globau, atlasau a mapiau **Deall lleoedd, amgylcheddau a phrosesau** • Adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau i ddisgrifio, cymharu a chyferbynnu lleoedd ac amgylcheddau • Disgrifio achosion a chanlyniadau newid mewn lleoedd ac yn yr amgylchedd **Ymchwilio** • Trefnu a dadansoddi tystiolaeth, datblygu syniadau i gael hyd i atebion a thynnu casgliadau **Y Fframwaith Rhifedd: Defnyddio sgiliau data** **Daearyddiaeth CA3** **Lleoli lleoedd, amgylcheddau a phatrymau** • Lleoli lleoedd ac amgylcheddau gan ddefnyddio globau, atlasau, mapiau a chynlluniau **Deall lleoedd, amgylcheddau a phrosesau** • Egluro achosion ac effeithiau prosesau ffisegol a dynol a sut mae'r prosesau'n rhyng-gysylltiedig **Ymchwilio** • Dadansoddi a gwerthuso syniadau a thystiolaeth, ateb cwestiynau a chyfiawnhau casgliadau **Y Fframwaith Rhifedd: Defnyddio sgiliau data**

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

OXFAM

Nodyn: Ar gyfer y sesiwn hon, bydd ar y dysgwyr angen dealltwriaeth o'r term "anghydraddoldeb", wedi'i gyflwyno yn Sioe slediau'r Cyflwyniad (Intro slide show)*. Hefyd efallai byddwch eisiau bwrw golwg ar y* Trosolwg i Athrawon*.*

Gweithgaredd 1 *(20 munud)*

Globingo (gweithgaredd cynhesu dewisol)

- Rhowch gopi'r un i'r dysgwyr o *Globingo* (Taflen gweithgareddau 1). Eglurwch fod rhaid i'r dysgwyr holi'r cwestiynau ar y daflen i'w gilydd a llenwi'r daflen gwestiynau cyn gynted ag sy'n bosibl. Maen nhw'n gwneud hyn drwy gasglu enw dysgwr gwahanol yn ymateb i bob cwestiwn. Y dysgwr sy'n casglu'r atebion i bob un o'r cwestiynau yn yr amser cyflymaf yw enillydd y gêm.
- Anogwch y dysgwyr i sefyll i ffwrdd o'u desgiau a'u cadeiriau ac i symud yn rhydd o gwmpas yr ystafell.
- Pan fydd y dysgwyr wedi gorffen holi ac ateb cwestiynau, dewch â'r dosbarth at ei gilydd a gofynnwch iddyn nhw a ydyn nhw wedi dod o hyd i unrhyw un sydd â chysylltiad â Brasil, y wlad sy'n llwyfannu Gemau Olympaidd 2016, ac os felly, beth oedd y cysylltiadau hyn.
- Trafodwch beth mae'r dysgwyr wedi'i ddarganfod drwy chwarae *Globingo* a beth yn eu barn nhw yw diben y gêm. Pwysleisiwch y pwynt fod cysylltiadau byd-eang rhyngom ni i gyd.

Gwahaniaethu

- *I'w wneud yn haws: Gofynnwch i'r dysgwyr fynd o gwmpas mewn parau i lenwi'r daflen weithgareddau.*
- *I'w wneud yn anos: Gwnewch i'r cwestiynau fod yn anos neu gofynnwch i'r dysgwyr nodi ffyrdd eraill lle mae cysylltiadau byd-eang rhyngom ni.*

Gweithgaredd 2 *(20 munud)*

Cydradd neu anghydradd?

- Gofynnwch i'r dysgwyr ble bydd y Gemau Olympaidd yn digwydd yn 2016 (Rio de Janeiro, Brasil). Dangoswch sleid 3 a gofynnwch i'r dysgwyr leoli Brasil a'r DU ar fap y byd. Cliciwch ymlaen ar y sleid i ddangos y lleoliadau cywir.
- Eglurwch y bydd 206 cenedl* o bedwar ban y byd yn cymryd rhan yng Ngemau Olympaidd 2016. Dangoswch sleid 4 a dywedwch mai dyma faneri rhai o'r gwledydd sy'n cymryd rhan. Gofynnwch i'r dysgwyr pa faneri y maen nhw'n eu hadnabod. *Nodyn: mae'r atebion cywir yn nodiadau'r sleidiau.*

  ***** *Nodyn: Gwledydd yw'r rhan fwyaf o'r cenhedloedd hyn ond mae nifer fach yn wladwriaethau a thiriogaethau nad ydynt yn cael eu cydnabod yn ffurfiol fel gwledydd, fel British Virgin Islands.*
- Trefnwch y dysgwyr yn barau neu'n grwpiau o dri a rhowch ddarn mawr o bapur i bob grŵp. Gofynnwch iddyn nhw rannu eu papur yn ei hanner ac ysgrifennu "Pethau Tebyg" ar ben un hanner, a "Pethau Gwahanol" ar ben y llall. Dangoswch sleid 5 a gofynnwch i'r dysgwyr weithio gyda'i gilydd i feddwl am unrhyw bethau tebyg a phethau gwahanol a allai fod rhwng y gwledydd sydd ar sleid 4.

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

OXFAM

Neu gallech wneud hyn fel gweithgaredd i'r dosbarth cyfan gan ddefnyddio dau ddarn o bapur siart troi a gofyn i'r dysgwyr gofnodi eu syniadau ar nodiadau gludiog a'u gludio ar y darn priodol o bapur.

- Pwysleisiwch fod hwn yn weithgaredd cyflym heb atebion cywir neu anghywir, ond anogwch y dysgwyr i ystyried gwahanol agweddau ar ddaearyddiaeth ddynol a ffisegol. Dylai'r dysgwyr feddwl am bethau tebyg a gwahanol cyffredinol, yn hytrach na rhai penodol; er enghraifft, hinsawdd, tirwedd, diwydiant, poblogaeth, iaith ac incwm cyfartalog.
- Trafodwch syniadau'r dysgwyr fel dosbarth cyfan. Mae'r cwestiynau posibl i'w trafod yn cynnwys:
  - *O ble mae eich syniadau am y pethau tebyg a gwahanol hyn yn dod?* Er enghraifft, gallai eu syniadau fod wedi'u seilio ar ddysgu blaenorol yn yr ysgol, ar ymweliadau â gwledydd eraill neu ar y cyfryngau.
  - *Ydych chi wedi tybio pethau am wledydd eraill?*
  - *Ar ba dystiolaeth rydych chi'n seilio eich syniadau a'ch tybiaethau?*
- Pwysleisiwch y pwynt, er y bydd llawer o wahaniaethau rhwng y gwledydd hyn, y bydd llawer o bethau tebyg hefyd. Ym mhob un o'r gwledydd hyn, bydd rhai pobl ifanc sydd â ffyrdd o fyw tebyg i bobl ifanc yn y DU. Eglurwch fod y dysgwyr nawr yn mynd i ddarganfod am rai o'r gwahaniaethau sydd rhwng y gwledydd hyn.
- Dangoswch sleid 6 ac eglurwch y gallwn feddwl am anghydraddoldeb fel y gwahaniaeth rhwng y pethau sydd gan rai grwpiau o bobl o'i gymharu â grwpiau eraill o bobl. Mae ychydig bach fel edrych pa mor fawr yw'r darn o deisen sydd gan un person o'i gymharu â pherson arall.
- Dangoswch sleid 7 ac eglurwch fod anghydraddoldeb rhwng gwledydd; er enghraifft mae rhai gwledydd yn gyfoethog ac mae eraill yn hynod o dlawd. Eglurwch fod incwm (faint o arian y mae pobl yn ei wneud o ganlyniad i waith neu fuddsoddiadau) yn aml yn cael ei ddefnyddio i gymharu gwledydd.
- Dywedwch fod Banc y Byd yn rhoi sylw manwl i hyn. Maen nhw'n benthyg arian i wledydd gwahanol, ac yn cyfrifo "incwm" gwledydd. Maen nhw'n gweithio hyn allan fel cyfartaledd y person er mwyn gallu cymharu gwledydd sydd â mwy neu lai o bobl. I'w gyfrifo maen nhw'n adio cyfanswm yr arian sy'n cael ei wneud yn y wlad honno dros y flwyddyn. Yna maen nhw'n rhannu hyn â nifer y bobl yn y wlad. Maen nhw'n gwneud y cyfrifiad hwn mewn doleri er mwyn gallu cymharu pob gwlad yn deg.
- Dangoswch sleid 8 a gofynnwch i'r dysgwyr roi cynnig ar roi'r pedair gwlad yn eu trefn yn ôl eu hincwm cyfartalog y person. Cliciwch ymlaen ar y sleid i rannu'r canlyniadau cywir. *Nodyn: Mae'r ffigurau hyn ar gyfer GNI y pen dull Atlas ($UDA ar hyn o bryd). Mae'r cyfansymiau sy'n cyfateb mewn Punnoedd Prydeinig (£) yn nodiadau'r sleidiau.*
- Dangoswch sleid 9 ac eglurwch fod anghydraddoldeb yn aml o fewn gwledydd, lle mae gan rai pobl ychydig bach yn unig ac mae gan eraill lawer.
- Eglurwch fod gwahanol ffyrdd o fesur anghydraddoldeb o fewn gwledydd. Un dull yw defnyddio mynegai neu gymhareb Gini. Gallwn feddwl am hwn fel math o sgôr tegwch sy'n dangos pa mor gydradd neu anghydradd yw gwlad.
- Dangoswch sleid 10 ac eglurwch y byddai sgôr tegwch o 0 yn golygu bod gan bawb yn y wlad yr union yr un faint o arian – nad oedd unrhyw anghydraddoldeb incwm. Mewn gwirionedd, nid oes unrhyw wlad fel hyn. Trafodwch syniadau'r dysgwyr am y posibilrwydd hwn. *A fyddai hi'n deg petai*

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

OXFAM

pawb yn ennill yr un faint o arian? Er enghraifft, bydd gan rai pobl swyddi sydd â mwy o gyfrifoldeb yn y gweithle, neu byddan nhw'n blaenoriaethu'r cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd yn wahanol.

- Dangoswch sleid 11 ac eglurwch y byddai sgôr tegwch o 100 yn golygu bod y wlad yn hollol anghydradd. Mewn gwirionedd, nid oes unrhyw wlad fel hyn chwaith. Trafodwch syniadau'r dysgwyr am y posibilrwydd hwn. *Ydych chi'n meddwl bod hyn yn deg? A hoffech chi fod yn llawer mwy cyfoethog nag unrhyw un arall? A hoffech chi fod ar yr ochr arall, heb arian o gwbl?*
- Dangoswch sleid 12 ac eglurwch fod pob gwlad mewn gwirionedd rywle rhwng 0 a 100. Mae gwledydd mwy cydradd yn nes at 0 ac mae gwledydd mwy anghydradd yn nes at 100. Cliciwch ymlaen ar y sleid i ddangos y sgoriau tegwch ar gyfer y DU (33) a Brasil (53).
- Dangoswch sleid 13 a dywedwch nad yw anghydraddoldeb yn ymwneud yn unig â sut mae arian yn cael ei rannu rhwng neu o fewn gwledydd. Mae anghydraddoldeb yn effeithio ar y cyfleoedd sydd gan bobl hefyd. Er enghraifft, ym maes chwaraeon, mae gan rai athletwyr fynediad i gyfleusterau a hyfforddiant gwell nag eraill. Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am ffyrdd eraill lle gallai bywydau pobl fod yn anghydradd, fel mynediad i ddŵr, addysg a gofal iechyd.

Gweithgaredd 3 *(25 munud)*

Trympiau Olympaidd

Nodyn: Gellir chwarae'r gêm hon mewn grwpiau o bedwar neu fel dosbarth cyfan. Bydd angen ichi argraffu a thorri allan set o gardiau Trympiau Olympaidd *(Taflen adnoddau 1) ar gyfer pob grŵp, neu os yw'r dosbarth yn chwarae gyda'i gilydd, un set i'r dosbarth cyfan. Mae'r data o'r 32 gwlad sydd ar y cardiau Trympiau Olympaidd yn* Data'r Trympiau Olympaidd *(Taflen adnoddau 4).*

- Eglurwch fod y dysgwyr yn mynd i chwarae gêm *Trympiau Olympaidd* er mwyn nodi enghreifftiau o rai o'r anghydraddoldebau sydd rhwng ac o fewn rhai o'r gwahanol wledydd sy'n cymryd rhan yng Ngemau Olympaidd Rio 2016.
- Dangoswch sleid 14 ac eglurwch y bydd y cardiau *Trympiau Olympaidd* yn rhoi nifer yr athletwyr o bob gwlad a gymerodd rhan yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012 yn ogystal â chyfanswm medalau pob gwlad. *Nodyn: Cyfanswm y medalau yw cyfanswm nifer y medalau (aur, arian neu efydd) a enillodd y wlad yn ystod y gemau.*
- Dangoswch sleid 15 ac eglurwch y bydd gwerthoedd y chwe mesur hwn (a elwir yn "ddangosyddion") hefyd yn cael eu dangos ar y cardiau *Trympiau Olympaidd*. Defnyddiwch nodiadau'r sleidiau i wirio bod y dysgwyr yn deall ystyr pob un o'r dangosyddion hyn. Pwysleisiwch mai ffigurau cyfartalog yw rhai o'r dangosyddion hyn (cyfartaledd incwm y person, disgwyliad oes ac ôl troed carbon). Mae dau o'r dangosyddion (y sgorau tegwch a chydraddoldeb rhywedd) yn mesur anghydraddoldeb mewn gwlad.
- Ar gyfer pob dangosydd, cytunwch fel dosbarth ai'r sgôr uchaf neu isaf sydd orau. At ddibenion y gweithgaredd hwn:
    - Athletwyr Olympaidd Llundain 2012 (y sgôr uchaf sydd orau)
    - Cyfanswm medalau Olympaidd Llundain 2012 (y sgôr uchaf sydd orau)
    - Disgwyliad oes (y sgôr uchaf sydd orau)
    - Incwm cyfartalog y person (y sgôr uchaf sydd orau)

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

OXFAM

- Sgôr tegwch (y sgôr isaf sydd orau)
- Poblogaeth (y sgôr uchaf sydd orau)
- Sgôr cydraddoldeb rhywedd (y sgôr uchaf sydd orau)
- Ôl troed carbon (y sgôr isaf sydd orau)

Nodyn: Mae'r rhestr uchod hefyd ar sleid 16.

- Os yw eich dosbarth yn chwarae'r gêm mewn grwpiau, rhannwch nhw'n grwpiau o bedwar. Eglurwch y rheolau iddynt a dywedwch wrthynt am chwarae'r gêm. Os ydych chi'n chwarae fel dosbarth cyfan, arweiniwch eich dysgwyr drwy'r gêm, gan ddilyn y rheolau isod.
- Fersiwn i grwpiau o bedwar
  - Mae'r deliwr yn dosbarthu'r cardiau fel bod gan bob chwaraewr wyth yr un.
  - Mae'r chwaraewr ar y chwith i'r deliwr yn penderfynu pa un o'r dangosyddion y maen nhw'n ei chwarae.
  - Mae'r chwaraewr yn galw enw eu gwlad allan a'r sgôr.
  - Wedyn mae'r chwaraewyr yn galw allan y sgôr gorau sydd ganddynt yn y categori hwnnw.
  - Mae'r chwaraewr sydd â'r sgôr uchaf/isaf (yn dibynnu ar ba un sydd orau) yn y categori hwnnw'n cymryd y cardiau.
  - Dylai'r dysgwyr ddechrau deall fod bod â'r sgôr gwaethaf ar gyfer dangosydd yn gallu bod yn rhwystredig.
- Fersiwn i'r dosbarth cyfan
  - Dosbarthwch y cardiau ymysg y dysgwyr.
  - Gofynnwch i'r dysgwyr ffurfio rhes yn ôl trefn disgwyliad oes eu gwlad; o'r uchaf i'r isaf. Gallech ofyn i'r dysgwyr wneud hyn drwy siarad neu heb siarad.
  - Ar ôl iddynt wneud hyn, gofynnwch i'r dysgwyr a allant gofio lle mae gwledydd penodol ar hyd y rhes.
  - Newidiwch a chwaraewch ar gyfer incwm cyfartalog y person. Cyn i'r dysgwyr ddechrau eto, holwch:
    - *Pa wledydd rydych chi'n disgwyl y byddan nhw'n agos at flaen y rhes?*
    - *Pa wledydd rydych chi'n disgwyl y byddan nhw'n agos at y cefn?*
- Stopiwch y gêm ar ôl ychydig funudau a gofynnwch i'r dysgwyr ystyried y cwestiynau ar sleid 17 wrth iddynt barhau i chwarae'r gêm.
- Rhowch amser ar ddiwedd y gêm i'r dysgwyr rannu ac ystyried eu syniadau a'u harsylwadau am chwarae'r gêm a'u syniadau am y cwestiynau ar sleid 17.

Gweithgaredd 4 *(45 munud)*

Mapio'r anghydraddoldeb rhwng gwledydd

Nodyn: Bydd angen mynediad i atlas neu'r Rhyngrwyd ar y dysgwyr ar gyfer y gweithgaredd hwn. Mae'r dysgwyr yn edrych ar y cysylltiad rhwng cyfanswm y medalau Olympaidd ac incwm y wlad yn fanylach yn sesiwn mathemateg Chwarae Teg?

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

OXFAM

- Trefnwch y dysgwyr yn barau a rhowch gopi i bob pâr o *Incwm cyfartalog y person* (Taflen adnoddau 2) neu *Cyfanswm y medalau Olympaidd* (Taflen adnoddau 3). Eglurwch fod pob tabl yn dangos y data ar gyfer y dangosydd hwn o'r cardiau *Trympiau Olympaidd*.
- Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar y data yn eu tabl a meddwl am y cwestiynau sydd ar sleid 18.
- Rhowch i bob dysgwr gopi A3 o *Mapio'r incwm cyfartalog y person* (Taflen gweithgareddau 2) neu *Mapio cyfanswm y medalau Olympaidd* (Taflen gweithgareddau 3).
- Gofynnwch i'r dysgwyr lenwi'r allwedd lliwiau i gynrychioli gwerth cynyddol y dangosydd (incwm cyfartalog y person neu gyfanswm y medalau Olympaidd), gan amrywio o'r gwerthoedd isaf i'r gwerthoedd uchaf ar gyfer y gwledydd yn y tabl. Dylent ddewis lliw ac yna amrywio'r graddliwio yn ôl gwerth y dangosydd: po fwyaf yw gwerth y dangosydd, y tywyllaf yw'r graddliwio.

  Nodyn: Mae'r ystodau ar gyfer incwm cyfartalog y person yn cyfateb i'r rhai ar gyfer gwahanol grwpiau incwm gwledydd, fel y'i diffinnir gan Fanc y Byd: gwledydd incwm isel, incwm canolig-is, incwm canolig-uwch, ac incwm uchel.
- Yna dylai'r dysgwyr raddliwio ym mhob gwlad o'r tabl ar eu map o'r byd i ddangos ei gwerth ar gyfer y dangosydd hwn. Mae enghreifftiau o fapiau o'r byd wedi'u graddliwio fel hyn ar gael ar wefan *World Bank Open Data* (data.worldbank.org). Rhowch ddangosydd (er enghraifft, disgwyliad oes), cliciwch ar *Go* ac yna cliciwch ar y dewis *Map* uwchben y data.
- Rhowch amser ar ddiwedd y gweithgaredd i'r dysgwyr rannu eu mapiau. Trafodwch y cwestiynau sydd ar sleid 19.
- Gorffennwch y gweithgaredd drwy atgoffa'r dysgwyr mai ar gyfer 32 gwlad yn unig mae'r canlyniadau hyn allan o'r 204 gwlad a fu'n cystadlu yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012. Trafodwch sut mae'r dysgwyr yn meddwl y byddai eu mapiau o'r byd yn edrych petai pob gwlad yn cael ei graddliwio yn ôl gwerth eu dangosyddion.
- Dangoswch sleid 20 ac eglurwch fod y map hwn o'r byd yn dangos incwm cyfartalog y person mewn gwahanol wledydd ar draws y byd. Mae gwledydd sydd ag incwm cyfartalog is wedi'u lliwio'n oren ac yn felyn; mae'r rhai sydd ag incwm cyfartalog uwch wedi'u lliwio'n wyrdd. Trafodwch ymatebion y dysgwyr i'r map hwn. *Nodyn: Nid yw'n hanfodol fod y dysgwyr yn gallu darllen enwau'r gwledydd ar y map.*
- Dangoswch sleid 21 ac eglurwch fod y map hwn o'r byd yn dangos y medalau a enillwyd gan wledydd a gymerodd ran yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012. Mae aur yn cynrychioli'r gwledydd a enillodd o leiaf un fedal aur. Mae arian yn cynrychioli'r gwledydd a enillodd o leiaf un fedal arian. Mae efydd yn cynrychioli'r gwledydd a enillodd o leiaf un fedal efydd. Mae glas yn cynrychioli'r gwledydd nad enillon nhw unrhyw fedalau. Mae coch yn cynrychioli'r gwledydd na chymerodd ran yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012 (er enghraifft roedd De Swdan yn wlad a oedd newydd gael ei ffurfio ac nid oedd ganddi Bwyllgor Olympaidd Cenedlaethol ar y pryd hwnnw). Trafodwch ymatebion y dysgwyr i'r map hwn.

Gwahaniaethu

- *I'w wneud yn haws: Yn lle defnyddio pedwar arlliw gwahanol o un lliw, gofynnwch i'r dysgwr ddefnyddio lliw cadarnhaol a negyddol, er enghraifft, yn amrywio o goch tywyll i goch golau, glas golau a glas tywyll. Neu, gofynnwch iddynt ddefnyddio gwahanol batrymau fel croeslinellu i gynrychioli'r ystod o werthoedd am y dangosydd o'u dewis.*

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

OXFAM

- *I'w wneud yn anos: Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r tabl yn* Data Trympiau Olympaidd *(Taflen adnoddau 4) a* Mapio bylchau rhwng gwledydd *(Taflen adnoddau 4) i greu eu hallwedd lliwiau a'u map o'r byd wedi'i raddliwio eu hunain ar gyfer un arall o'r dangosyddion yn y cardiau Trympiau Olympaidd, fel disgwyliad oes neu ôl troed carbon.*

Syniadau pellach

- Rhowch gymorth i'r dysgwyr ddefnyddio gwefan Gapminder (www.gapminder.org) i edrych ar sut mae rhai o'r dangosyddion *Trympiau Olympaidd* wedi newid dros gyfnod o amser a sut mae'r dangosyddion hyn yn amrywio yng ngwahanol wledydd a rhanbarthau'r byd.
- Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar ddangosyddion eraill a ddefnyddir i nodi anghydraddoldebau rhwng gwledydd. Mae ffynonellau data defnyddiol yn cynnwys:
  - data.worldbank.org
  - hdr.undp.org/en/data
- Ymchwiliwch a lleolwch ar fap o'r byd y gwledydd hynny sy'n cynhyrchu'r gwahanol ddillad chwaraeon a'r esgidiau rhedeg sy'n cael eu gwisgo gan ddysgwyr yn eich dosbarth. Trafodwch pwy sy'n ymwneud â chynhyrchu a gwerthu un o'r eitemau hyn o ddillad chwaraeon a thynnwch lun diagram, ar ffurf cadwyn, o'r bobl sy'n rhan o'r broses, o'r gweithiwr ffatri i ddefnyddiwr yn y DU. Edrychwch ar amodau gwaith ac elw'r rhai sy'n ymwneud â'r broses gynhyrchu a chymharwch hyn â rhai pobl eraill ar hyd y gadwyn.
  - Gweler *Fair's Fair – Life and rights in the global sports industry* gan Playfair, 2012, i gael gwybod rhagor am rai o'r bobl sy'n gwneud y nwyddau hyn mewn gwledydd tlotach, yn aml yn gweithio heb lawer o hawliau, ac am gyflogau isel iawn:
    www.playfair2012.org.uk/wp-content/uploads/2011/09/TUC_Fairs-fair_booklet.pdf
  - Rhowch gynnig ar *The Clothes Line* gan Oxfam i edrych ar gynhyrchu cotwm a'r diwydiant tecstilau yn India: www.oxfam.org.uk/education/resources/the-clothes-line
- Nodwch ffactorau a fydd yn cyfrannu i ôl troed carbon y Gemau Olympaidd, fel adeiladu lleoliadau'r chwaraeon a'r llety i'r athletwyr, a darparu cludiant a bwyd a diod i wylwyr. Edrychwch pa gamau y mae'r trefnwyr wedi'u cymryd fel bod effeithiau amgylcheddol llwyfannu'r Gemau Olympaidd gyn lleied â phosibl; er enghraifft, defnyddio ynni cynaliadwy. Yna cynlluniwch eich Gemau Olympaidd cynaliadwy eich hun.
  - I gael gwybodaeth am rai o'r camau a gymerwyd i ymgorffori nodau cynaliadwyedd i Gemau Olympaidd Llundain 2012, gweler:
    www.olympic.org/Documents/Reference_documents_Factsheets/London_2012_Facts_and_Figures-eng.pdf
- Defnyddiwch *Cadwyn Pam-pam-pam* i feddwl yn feirniadol am pam mae gan rai gwledydd nifer uwch o athletwyr yn cymryd rhan yn y Gemau Olympaidd neu Baralympaidd, ac yn ennill mwy o fedalau nag eraill.
  - Gweler tudalen 12 cyhoeddiad Oxfam *Global Citizenship in the Classroom: A guide for teachers*:
    www.oxfam.org.uk/education/global-citizenship/global-citizenship-guides
- Dysgwch ragor am achosion o anghydraddoldeb ac edrychwch ar ganlyniadau posibl i fywydau pobl ifanc mewn gwahanol rannau o'r byd, gan gynnwys y DU.

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

OXFAM

- Gweler adnodd daearyddiaeth Oxfam *More or Less Equal?* ar gyfer dysgwyr 11–16 oed: www.oxfam.org.uk/education/resources/more-or-less-equal-geography

Amodau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Cewch ddefnyddio'r ffotograffau hyn a'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y'i defnyddiwch, rhaid ichi gydnabod y ffotograffydd a enwyd ar gyfer y ddelwedd honno ac Oxfam. Ni chewch ddefnyddio delweddau a gwybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol neu'r tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn ymwneud â'r dyddiad a'r amser pan ddigwyddodd y gwaith prosiect. Er bod yr adnodd hwn yn cyfeirio at y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd drwyddi draw, defnydd golygyddol yn unig yw hwn ac nid oes unrhyw fath o gysylltiad rhwng y Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol a'r adnodd hwn.

Globingo

Taflen gweithgareddau 1

Dewch o hyd i rywun sydd:

1. wedi bwyta rhywbeth o wlad arall yn ystod yr wythnos diwethaf
2. yn gallu dweud "helô" mewn iaith arall
3. yn gwisgo rhywbeth a gafodd ei wneud mewn gwlad arall
4. yn gallu enwi seren chwaraeon enwog o wlad arall
5. yn gallu enwi elusen sy'n gweithio dramor
6. wedi defnyddio e-bost i gyfathrebu â rhywun mewn gwlad wahanol
7. sydd ag aelod o'u teulu'n byw mewn gwlad arall
8. wedi teithio i wlad arall
9. yn gallu enwi gwleidydd enwog o wlad arall.

1. Enw: Ateb:	2. Enw: Ateb:	3. Enw: Ateb:
4. Enw: Ateb:	5. Enw: Ateb:	6. Enw: Ateb:
7. Enw: Ateb:	8. Enw: Ateb:	9. Enw: Ateb:

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

OXFAM

Cardiau Trympiau Olympaidd 1

Taflen adnoddau 1

ETHIOPIA

Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012: 35
Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012: 7
Incwm cyfartalog y person ($UDA): 550
Disgwyliad oes (blynedd): 63
Sgôr tegwch: 33
Poblogaeth (miliynau): 97
Sgôr cydraddoldeb rhywedd: 0.640
Ôl troed carbon (tCO_2/person/y flwyddyn): 0.1

INDIA

Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012: 83
Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012: 6
Incwm cyfartalog y person ($UDA): 1,570
Disgwyliad oes (blynedd): 68
Sgôr tegwch: 34
Poblogaeth (miliynau): 1,295
Sgôr cydraddoldeb rhywedd: 0.664
Ôl troed carbon (tCO_2/person/y flwyddyn): 2.0

PERIW

Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012: 16
Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012: 0
Incwm cyfartalog y person ($UDA): 6,360
Disgwyliad oes (blynedd): 74
Sgôr tegwch: 45
Poblogaeth (miliynau): 31
Sgôr cydraddoldeb rhywedd: 0.683
Ôl troed carbon (tCO_2/person/y flwyddyn): 1.9

VIET NAM

Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012: 18
Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012: 0
Incwm cyfartalog y person ($UDA): 1,890
Disgwyliad oes (blynedd): 76
Sgôr tegwch: 39
Poblogaeth (miliynau): 91
Sgôr cydraddoldeb rhywedd: 0.687
Ôl troed carbon (tCO_2 /person/y flwyddyn):1.9

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

OXFAM

Y DEYRNAS UNEDIG

Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012: 556
Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012: 65
Incwm cyfartalog y person ($UDA): 43,430
Disgwyliad oes (blynedd): 81
Sgôr tegwch: 33
Poblogaeth (miliynau): 65
Sgôr cydraddoldeb rhywedd: 0.758
Ôl troed carbon (tCO_2/person/y flwyddyn): 6.7

BRASIL

Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012: 266
Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012: 17
Incwm cyfartalog y person ($UDA): 11,530
Disgwyliad oes (blynedd): 74
Sgôr tegwch: 53
Poblogaeth (miliynau): 206
Sgôr cydraddoldeb rhywedd: 0.686
Ôl troed carbon (tCO_2/person/y flwyddyn): 2.5

GHANA

Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012: 9
Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012: 0
Incwm cyfartalog y person ($UDA): 1,590
Disgwyliad oes (blynedd): 61
Sgôr tegwch: 43
Poblogaeth (miliynau): 27
Sgôr cydraddoldeb rhywedd: 0.704
Ôl troed carbon (tCO_2/person/y flwyddyn): 0.4

CHINA



Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012: 371
Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012: 88
Incwm cyfartalog y person ($UDA): 7,400
Disgwyliad oes (blynedd): 75
Sgôr tegwch: 42
Poblogaeth (miliynau): 1,364
Sgôr cydraddoldeb rhywedd: 0.682
Ôl troed carbon (tCO_2 /person/y flwyddyn: 7.1

NORWY



Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012: 65
Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012: 4
Incwm cyfartalog y person ($UDA): 103,630.
Disgwyliad oes (blynedd): 81
Sgôr tegwch: 26
Poblogaeth (miliynau): 5
Sgôr cydraddoldeb rhywedd: 0.850
Ôl troed carbon (tCO_2/person/y flwyddyn): 8.7

PAKISTAN

Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012: 23
Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012: 0
Incwm cyfartalog y person ($UDA): 1,400
Disgwyliad oes (blynedd): 66
Sgôr tegwch: 30
Poblogaeth (miliynau): 185
Sgôr cydraddoldeb rhywedd: 0.559
Ôl troed carbon (tCO_2/person/y flwyddyn): 0.9

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

OXFAM

UKRAIN

Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012: 236
Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012: 20
Incwm cyfartalog y person ($UDA): 3,560
Disgwyliad oes (blynedd): 71
Sgôr tegwch: 25
Poblogaeth (miliynau): 45
Sgôr cydraddoldeb rhywedd: 0.702
Ôl troed carbon (tCO_2/person/y flwyddyn): 5.3

NIGERIA



Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012: 53
Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012: 0
Incwm cyfartalog y person ($UDA): 2,970
Disgwyliad oes (blynedd): 52
Sgôr tegwch: 43
Poblogaeth (miliynau): 177
Sgôr cydraddoldeb rhywedd: 0.638
Ôl troed carbon (tCO_2/person/y flwyddyn): 0.5

MÉXICO

Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012: 106
Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012: 7
Incwm cyfartalog y person ($UDA): 9,870
Disgwyliad oes (blynedd): 77
Sgôr tegwch: 48
Poblogaeth (miliynau): 125
Sgôr cydraddoldeb rhywedd: 0.699
Ôl troed carbon (tCO_2/person/y flwyddyn): 3.6

YR EIDAL

Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012: 281
Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012: 28
Incwm cyfartalog y person ($UDA): 34,270
Disgwyliad oes (blynedd): 82
Sgôr tegwch: 35
Poblogaeth (miliynau): 61
Sgôr cydraddoldeb rhywedd: 0.726
Ôl troed carbon (tCO_2/person/y flwyddyn): 5.5

DE AFFRICA

Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012: 133
Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012: 6
Incwm cyfartalog y person ($UDA): 6,800
Disgwyliad oes (blynedd): 57
Sgôr tegwch: 63
Poblogaeth (miliynau): 54
Sgôr cydraddoldeb rhywedd: 0.759
Ôl troed carbon (tCO_2/person/y flwyddyn): 8.8

IRAN

Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012: 53
Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012: 12
Incwm cyfartalog y person ($UDA): 7,120
Disgwyliad oes (blynedd): 75
Sgôr tegwch: 37
Poblogaeth (miliynau): 78
Sgôr cydraddoldeb rhywedd: 0.580
Ôl troed carbon (tCO_2/person/y flwyddyn): 7.9

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

OXFAM

MALAWI

Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012: 3
Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012: 0
Incwm cyfartalog y person ($UDA): 250
Disgwyliad oes (blynedd): 61
Sgôr tegwch: 46
Poblogaeth (miliynau): 17
Sgôr cydraddoldeb rhywedd: 0.701
Ôl troed carbon (tCO_2/person/y flwyddyn): 0.1

FFEDERASIWN RWSIA

Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012: 435
Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012: 82
Incwm cyfartalog y person ($UDA): 13,220
Disgwyliad oes (blynedd): 71
Sgôr tegwch: 42
Poblogaeth (miliynau): 144
Sgôr cydraddoldeb rhywedd: 0.694
Ôl troed carbon (tCO_2/person/y flwyddyn): 11.1

UNOL DALEITHIAU AMERICA

Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012: 531
Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012: 103
Incwm cyfartalog y person ($UDA): 55,200
Disgwyliad oes (blynedd): 79
Sgôr tegwch: 41
Poblogaeth (miliynau): 319
Sgôr cydraddoldeb rhywedd: 0.740
Ôl troed carbon (tCO_2/person/y flwyddyn): 17.4

TUNISIA

Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012: 84
Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012: 3
Incwm cyfartalog y person ($UDA): 4,230
Disgwyliad oes (blynedd): 74
Sgôr tegwch: 36
Poblogaeth (miliynau): 11
Sgôr cydraddoldeb rhywedd: 0.634
Ôl troed carbon (tCO_2/person/y flwyddyn): 2.4

CHILE

Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012: 35
Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012: 0
Incwm cyfartalog y person ($UDA): 14,910
Disgwyliad oes (blynedd): 81
Sgôr tegwch: 51
Poblogaeth (miliynau): 18
Sgôr cydraddoldeb rhywedd: 0.698
Ôl troed carbon (tCO_2/person/y flwyddyn): 4.6

BWLGARIA

Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012: 63
Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012: 2
Incwm cyfartalog y person ($UDA): 7,620
Disgwyliad oes (blynedd): 74
Sgôr tegwch: 36
Poblogaeth (miliynau): 7
Sgôr cydraddoldeb rhywedd: 0.722
Ôl troed carbon (tCO_2/person/y flwyddyn): 6.4

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

OXFAM

NEPAL



Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012: 5
Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012: 0
Incwm cyfartalog y person ($UDA): 730
Disgwyliad oes (blynedd): 69
Sgôr tegwch: 33
Poblogaeth (miliynau): 28
Sgôr cydraddoldeb rhywedd: 0.658
Ôl troed carbon (tCO_2/person/y flwyddyn): 0.2

MONGOLIA

Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012: 29
Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012: 5
Incwm cyfartalog y person ($UDA): 4,280
Disgwyliad oes (blynedd): 69
Sgôr tegwch: 34
Poblogaeth (miliynau): 3
Sgôr cydraddoldeb rhywedd: 0.709
Ôl troed carbon (tCO_2/person/y flwyddyn): 7.1

AWSTRALIA

Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012: 413
Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012: 35
Incwm cyfartalog y person ($UDA): 64,540
Disgwyliad oes (blynedd): 82
Sgôr tegwch: 35
Poblogaeth (miliynau): 23
Sgôr cydraddoldeb rhywedd: 0.733
Ôl troed carbon (tCO_2/person/y flwyddyn): 16.2

PILIPINAS

Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012: 11
Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012: 0
Incwm cyfartalog y person ($UDA): 3,500
Disgwyliad oes (blynedd): 68
Sgôr tegwch: 43
Poblogaeth (miliynau): 99
Sgôr cydraddoldeb rhywedd: 0.790
Ôl troed carbon (tCO_2/person/y flwyddyn): 1.0

BOLIVIA

Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012: 5
Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012: 0
Incwm cyfartalog y person ($UDA): 2,870
Disgwyliad oes (blynedd): 68
Sgôr tegwch: 48
Poblogaeth (miliynau): 11
Sgôr cydraddoldeb rhywedd: 0.749
Ôl troed carbon (tCO_2/person/y flwyddyn): 1.7

YEMEN

Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012: 4
Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012: 0
Incwm cyfartalog y person ($UDA): 1,300
Disgwyliad oes (blynedd): 64
Sgôr tegwch: 36
Poblogaeth (miliynau): 26
Sgôr cydraddoldeb rhywedd: 0.484
Ôl troed carbon (tCO_2/person/y flwyddyn): 0.9

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

OXFAM

RWANDA

Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012: 7
Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012: 0
Incwm cyfartalog y person ($UDA): 700
Disgwyliad oes (blynedd): 64
Sgôr tegwch: 51
Poblogaeth (miliynau): 11
Sgôr cydraddoldeb rhywedd: 0.794
Ôl troed carbon (tCO_2/person/y flwyddyn): 0.1

JAMAICA

Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012: 50
Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012: 12
Incwm cyfartalog y person ($UDA): 5,150
Disgwyliad oes (blynedd): 73
Sgôr tegwch: 46
Poblogaeth (miliynau): 3
Sgôr cydraddoldeb rhywedd: 0.703
Ôl troed carbon (tCO_2/person/y flwyddyn): 2.8

YR ALMAEN

Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012: 395
Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012: 44
Incwm cyfartalog y person ($UDA): 47,640
Disgwyliad oes (blynedd): 81
Sgôr tegwch: 30
Poblogaeth (miliynau): 81
Sgôr cydraddoldeb rhywedd: 0.779
Ôl troed carbon (tCO_2/person/y flwyddyn): 9.8

JAPAN



Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012: 303
Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012: 38
Incwm cyfartalog y person ($UDA): 42,000
Disgwyliad oes (blynedd): 83
Sgôr tegwch: 32
Poblogaeth (miliynau): 127
Sgôr cydraddoldeb rhywedd: 0.670
Ôl troed carbon (tCO_2/person/y flwyddyn): 9.7

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

OXFAM

Incwm cyfartalog y person

Taflen adnoddau 2

Gwlad	Incwm cyfartalog y person (UDA)
Awstralia	64,540
Bolivia	2,870
Brasil	11,530
Bwlgaria	7,620
Chile	14,910
China	7,400
Ethiopia	550
Yr Almaen	47,640
Ghana	1,590
India	1,570
Iran	7,120
Yr Eidal	34,270
Jamaica	5,150
Japan	42,000
Malawi	250
México	9,870
Mongolia	4,280
Nepal	730
Nigeria	2,970
Norwy	103,630.
Pakistan	1,400
Periw	6,360
Pilipinas	3,500
Ffederasiwn Rwsia	13,220
Rwanda	700
De Affrica	6,800
Tunisia	4,230
Ukrain	3,560
Y Deyrnas Unedig	43,430
Unol Daleithiau America	55,200
Viet Nam	1,890
Yemen	1,300

Ffynhonnell y data: World Bank Open Data (2013–2014): data.worldbank.org *Mae'r ffigurau ar gyfer GNI y pen, dull Atlas ($UDA cyfredol)*

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

Cyfanswm y medalau Olympaidd

Taflen adnoddau 3

Gwlad	Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012
Awstralia	35
Bolivia	0
Brasil	17
Bwlgaria	2
Chile	0
China	88
Ethiopia	7
Yr Almaen	44
Ghana	0
India	6
Iran	12
Yr Eidal	28
Jamaica	12
Japan	38
Malawi	0
México	7
Mongolia	5
Nepal	0
Nigeria	0
Norwy	4
Pakistan	0
Periw	0
Pilipinas	0
Ffederasiwn Rwsia	82
Rwanda	0
De Affrica	6
Tunisia	3
Ukrain	20
Y Deyrnas Unedig	65
Unol Daleithiau America	103
Viet Nam	0
Yemen	0

Ffynhonnell y data: Y Pwyllgor Rhyngwladol Olympaidd, www.olympic.org/olympic-results

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

Mapio incwm cyfartalog y person

Taflen gweithgareddau 2

Ffynhonnell y map Y Gymdeithas Ddaearyddol www.geography.org.uk

Incwm cyfartalog y person (UDA)	
Gwerth	**Graddliwio**
$1,045 neu lai	
$1,046–$4,125	
$4,126–12,735	
$12,736 neu ragor	

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

OXFAM

Mapio cyfanswm y medalau Olympaidd

Taflen gweithgareddau 3



Gemau Olympaidd 2012 Cyfanswm y Medalau	
Gwerth	**Graddliwio**
0–10	
11–30	
31–60	
61–110	

Ffynhonnell y map Y Gymdeithas Ddaearyddol www.geography.org.uk

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

OXFAM

Data'r Trympiau Olympaidd

Taflen adnoddau 4

Gwlad	Nifer yr Athletwyr yng Ngemau Olympaidd Llundain 2012	Cyfanswm medalau Gemau Olympaidd Llundain 2012	Incwm cyfartalog y person (UDA)	Disgwyliad oes (blynedd)	Sgôr tegwch	Poblogaeth (miliynau)	Sgôr cydraddoldeb rhywedd	Ôl troed carbon (tCO_2/ y person/y flwyddyn)
Awstralia	413	35	64,540	82	35	23	0.733	16.2
Bolivia	5	0	2,870	68	48	11	0.749	1.7
Brasil	266	17	11,530	74	53	206	0.686	2.5
Bwlgaria	63	2	7,620	74	36	7	0.722	6.4
Chile	35	0	14,910	81	51	18	0.698	4.6
China	371	88	7,400	75	42	1,364	0.682	7.1
Ethiopia	35	7	550	63	33	97	0.640	0.1
Yr Almaen	395	44	47,640	81	30	81	0.779	9.8
Ghana	9	0	1,590	61	43	27	0.704	0.4
India	83	6	1,570	68	34	1,295	0.664	2.0
Iran	53	12	7,120	75	37	78	0.580	7.9
Yr Eidal	281	28	34,270	82	35	61	0.726	5.5
Jamaica	50	12	5,150	73	46	3	0.703	2.8
Japan	303	38	42,000	83	32	127	0.670	9.7
Malawi	3	0	250	61	46	17	0.701	0.1
México	106	7	9,870	77	48	125	0.699	3.6
Mongolia	29	5	4,280	69	34	3	0.709	7.1
Nepal	5	0	730	69	33	28	0.658	0.2
Nigeria	53	0	2,970	52	43	177	0.638	0.5
Norwy	65	4	103,630.	81	26	5	0.850	8.7
Pakistan	23	0	1,400	66	30	185	0.559	0.9
Periw	16	0	6,360	74	45	31	0.683	1.9
Pilipinas	11	0	3,500	68	43	99	0.790	1.0
Ffederasiwn Rwsia	435	82	13,220	71	42	144	0.694	11.1
Rwanda	7	0	700	64	51	11	0.794	0.1
De Affrica	133	6	6,800	57	63	54	0.759	8.8
Tunisia	84	3	4,230	74	36	11	0.634	2.4
Ukrain	236	20	3,560	71	25	45	0.702	5.3
Y Deyrnas Unedig	556	65	43,430	81	33	65	0.758	6.7
Unol Daleithiau	531	103	55,200	79	41	319	0.740	17.4
Viet Nam	18	0	1,890	76	39	91	0.687	1.9
Yemen	4	0	1,300	64	36	26	0.484	0.9

Ffynonellau'r data: *Olympics 2012: the alternative medals table* (Simon Rogers, The Guardian, 2012) www.theguardian.com/sport/datablog/2012/jul/30/olympics-2012-alternative-medal-table#data; Y Pwyllgor Rhyngwladol Olympaidd, www.olympic.org/olympic-results; World Bank Open Data (2004–2014), data.worldbank.org *Incwm cyfartalog y person: Mae'r ffigurau ar gyfer GNI y pen, dull Atlas ($UDA cyfredol)/ Sgôr tegwch: Mae'r ffigurau ar gyfer mynegai Gini (amcangyfrif Banc y Byd); Adroddiad Bwlch Rhywedd Byd-eang 2015*, Fforwm Economaidd y Byd (2015), reports.weforum.org/global-gender-gap-report-2015/; Atlas Carbon Byd-Eang (2013–2014), www.globalcarbonatlas.org /

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

OXFAM

Mapio'r anghydraddoldeb rhwng gwledydd

Taflen gweithgareddau 4



Ffynhonnell y map Y Gymdeithas Ddaearyddol www.geography.org.uk

Gwerth	**Graddliwio**

Hawlfraint © Oxfam GB. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol yn unig.

OXFAM